

Nodiadau Cymorth am Grantiau a Benthyciadau

Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol

www.ahfund.org.uk

Ebrill 2023

Beth yw diben y nodiadau hyn?

Mae'r nodiadau hyn yn rhoi canllaw ar sut i gwblhau'r broses dau gam ar gyfer ein porth ymgeisio ar-lein. Drwy'r porth hwn gallwch wneud cais am y mathau canlynol o gymorth:

-
- Grantiau Hyfywedd Prosiect

-
- Grantiau Datblygu Prosiect

-
- Grantiau Gwaith Cyfalaf NID AR GAEL AR HYN O BRYD

-
- Benthyciadau
-

Darllenwch y nodiadau hyn yn eu cyfanrwydd er mwyn deall yr wybodaeth y bydd angen i chi ei darparu pan fyddwch yn gwneud eich cais. Efallai y bydd angen i chi gynnwys darnau ychwanegol o wybodaeth yn eich cais am grantiau cyfalaf a benthyciadau; edrychwch am **Grantiau Gwaith Cyfalaf** a **Benthyciadau** wrth i chi ddarllen trwy'r canllaw hwn. Yn ogystal â'r cwestiynau ar y ffurflen, bydd angen i chi lanlwytho dogfennau ategol fel atodiadau.

Bydd angen darllen y nodiadau hyn ar y cyd â'r *Canllaw Rhaglen* perthnasol ar gyfer pa bynnag raglen grant neu fenthyciad yr ydych yn gwneud cais iddi. Sylwch y gall fod gan wahanol raglenni **ofynion cymhwysedd gwahanol**, gallant gefnogi **gwahanol fathau o waith** i'w cyflawni, a gallant ei gwneud yn ofynnol cynnwys **dogfennau ategol gwahanol**.

Gwiriwch y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau ar ein gwefan hefyd. Ar gyfer grantiau, mae'r rhain yn amrywio gan ddibynnu ar fath a maint y grant rydych yn gofyn amdano. Gellir gwneud ceisiadau am fenthyciad unrhyw bryd, ond gwneir penderfyniadau bob chwarter; gellir trafod prosesu cais yn gyflymach o dan amgylchiadau eithriadol.

Proses ymgeisio dau gam y Gronfa

O 2023 ymlaen, mae'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn defnyddio proses ymgeisio dau gam. Mae'r symudiad i'r broses dau gam hon wedi'i gynllunio i arbed amser i chi fel mai dim ond os bydd ein tîm yn penderfynu bod eich prosiect yn cyd-fynd â meini prawf y rhaglen grant neu'r gronfa fenthyciadau y gofynnir i chi gwblhau cais llawn.

Y cam cyntaf yn y broses hon yw cwblhau ein ffurflen [Mynegiant o Ddiddordeb](#). Os byddwn yn penderfynu bod eich cais yn gymwys i gael cyllid drwy un o'n rhaglenni a bod siawns resymol y bydd eich prosiect yn llwyddo i gael cyllid, byddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn.

Ceir rhagor o wybodaeth isod am yr hyn sy'n digwydd ym mhob cam o'r broses hon, a'r hyn yr ydym yn edrych amdano.

Y ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb

Y cam cyntaf wrth wneud cais i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol am grant neu fenthyciad yw cwblhau ein ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb. Bydd yr wybodaeth yn y ffurflen hon yn ein galluogi i benderfynu p'un a yw eich prosiect a'ch sefydliad yn gymwys i gael cyllid gennym a bydd yn ei gwneud yn bosibl i ni wneud asesiad sylfaenol o'ch prosiect. Gallwch gwblhau ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb unrhyw bryd, ond **gwiriwch ddyddiadau cau ar gyfer ceisiadau ar ein gwefan os yw amser yn hollbwysig i'ch prosiect** er mwyn gwneud yn siŵr bod eich ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb yn cael ei chyflwyno mewn da bryd.

Beth i'w ddweud wrthym – Mynegiant o Ddiddordeb

Yn y ffurflen hon, gofynnir i chi ddweud wrthym am eich sefydliad a'ch adeilad. Byddwn hefyd yn gofyn pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer addasu ac ailddefnyddio'r adeilad, neu pa syniadau rydych yn eu hystyried. Byddwn yn gofyn ble mae'r adeilad wedi'i leoli a pha waith neu gostau rydych am i ni eu hariannu.

Mae'r rhifau isod yn cyfeirio at rif y cwestiwn ar y ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb. Lle nad yw cwestiwn wedi'i gynnwys isod, mae hynny oherwydd y dylai'r ateb fod yn hunaneglur. Nodir y terfynau geiriau, lle bo hynny'n berthnasol, mewn cromfachau sgwâr – [].

Eich sefydliad

3 Pa fath o sefydliad ydych chi?

Bydd cwmpen yn ymddangos. Sylwch nad yw'r mathau canlynol o sefydliadau yn gymwys ar gyfer ein cyllid: Perchnogion preifat, prifysgolion, colegau ac ysgolion eraill, cwmnïau er elw, partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Yn ogystal, nid yw Cwmnïau Buddiannau Cymunedol sy'n gyfyngedig drwy gyfranddaliadau, nac eglwysi na manau addoli eraill a ddefnyddir at ddibenion crefyddol yn bennaf, yn gymwys fel arfer. Os yw eich sefydliad yn un o'r mathau hyn ond eich bod yn credu y gallai fod yn gymwys ar gyfer ein cyllid, cysylltwch â'n tîm drwy'r manylion cyswllt ar ein gwefan.

Os nad ydych wedi'ch cymeradwyo fel endid ar hyn o bryd, y categori 'Arall'. Yn yr achos hwn, cymorth yn cynnig am grant Hyfywedd Prosiect yn unig: ar gyfer pob

grant neu grant arall, rhaid i chi fod yn sefydliad nid-er-elw preifat gorfforedig.

Os nad yw'ch sefydliad yn elusen gofrestrdedig, rhaid bod ganddo gymal diddymu neu glo asedau digonol. Mae hon yn ddarpariaeth yn y ddogfen lywodraethol i amddiffyn ei asedau. Mae'n golygu, os yw'r sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben, rhaid trosglwyddo unrhyw asedau i sefydliad nid-er-elw tebyg (neu gorff enwebedig gyda chlo asedau) unwaith y bydd credydwy'r wedi'u talu.

Mae'n ein helpu ni: I wirio p'un a ydych yn gymwys i gael ein cyllid.

Eich adeilad

- 16 Dywedwch wrthym yn gryno am eich adeilad – beth ydoedd a beth yw ei hanes? A oes gan yr adeilad unrhyw arwyddocâd arbennig i'ch cymuned? [150 o eiriau]**

Dywedwch wrthym am y canlynol: Dyluniad, cynllun ac adeiladwaith yr adeilad, ei oedran a'i arwyddocâd treftadaeth. Os nad yw'r adeilad yn rhestredig, disgrifiwch yr hyn sy'n ei wneud yn un ag arwyddocâd arbennig. Esboniwch sut mae'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio ar wahanol adegau a sut mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Sut mae'n cael ei werthfawrogi gan y gymuned?

Mae'n ein helpu ni: I ddeall beth yw'r adeilad a'i amgylchiadau, gan gofio efallai na fyddwn wedi ymweld ag ef. Mae hefyd yn ein helpu i ddeall arwyddocâd yr adeilad.

- 18 Dywedwch wrthym yn gryno ar gyfer beth yr ydych yn bwriadu defnyddio'r adeilad, neu, os ydych newydd ddechrau, pa syniadau yr ydych yn eu hystyried. Pa waith adeiladu y gallai fod ei angen er mwyn gwneud y defnydd hwn yn bosibl? [150 o eiriau]**

Dywedwch wrthym am y canlynol: Eich syniadau ar gyfer defnyddio'r adeilad ac unrhyw waith a all fod yn angenrheidiol er mwyn gwneud y defnydd hwn yn bosibl. Yn y cam Hyfywedd Prosiect, mae'r rhain yn debygol o fod yn bosibiliadau rydych am eu profi drwy'r gwaith a ariennir gan grant. Yn ystod camau diweddarach cais am grant neu fenthyciad, byddwch eisoes wedi nodi'r opsiwn a ffefrir gennych. Crynhowch y gwaith atgyweirio a'r addasiadau sydd eu hangen er mwyn ei gwneud yn bosibl defnyddio'r adeilad yn y ffordd rydych yn cynllunio.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall p'un a oes gan eich prosiect y potensial i adfywio adeilad hanesyddol mewn ffordd sy'n cadw ei werth treftadaeth, wrth gyflwyno defnyddiau newydd hyfyw.

Eich prosiect

- 19 Dywedwch wrthym yn gryno pa weithgareddau neu waith yr ydych yn gofyn i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol eu cefnogi. [150 o eiriau]**

Dywedwch wrthym am y canlynol: Y gwaith penodol rydych yn bwriadu ei wneud gyda chymorth ein grant. Os ydych yn gwneud cais am Grant Hyfywedd neu Grant Datblygu, cyfeiriwch at y rhestr o gostau y gallwn eu hystyried yn y Canllaw Rhaglen perthnasol. Disgrifiwch y prif eitemau, gan gyfeirio at ba fathau o weithwyr proffesiynol fydd yn ymgymryd â nhw a beth fyddant yn ei gynhyrchu.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall beth mae eich cais am gyllid ar ei gyfer ac ystyried p'un a yw'r gweithgaredd hwn yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen yr ydych

yn bwriadu gwneud cais iddi, yn ogystal â ph'un a yw'n cynrychioli gwerth da am arian. Byddwn hefyd yn ystyried p'un a yw eich amserlen ar gyfer cael cyllid a chyflawni eich prosiect yn realistig.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi gyflwyno fy ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb?

Ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb, bydd copi PDF ohoni yn cael ei anfon atoch drwy e-bost. Wedyn bydd ein tîm yn adolygu eich cyflwyniad. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth yn ystod y cam hwn. Efallai y byddwn yn penderfynu nad yw eich prosiect yn gymwys ar gyfer ein cyllid yn ystod y cam hwn. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn penderfynu, er bod eich prosiect yn gymwys, nad yw'n debygol o gystadlu'n llwyddiannus am y cyllid sydd ar gael gennym.

Os ydych yn gwneud cais am grant, byddwn yn cysylltu â chi o fewn chwe wythnos i gadarnhau p'un a ydym yn bwrw ymlaen â'ch cais.

Os ydych yn gwneud cais am fenthyciad, byddwn yn cysylltu â chi o fewn pum niwrnod gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn am siarad â chi am eich prosiect.

Os ydych yn cael eich gwahodd i gwblhau cais llawn, byddwn yn anfon doler i'r ffurflen gais a chod mynediad unigryw atoch drwy e-bost.

Cwblhau cais llawn

Os ydych yn cael eich gwahodd i gyflwyno cais llawn am grant neu fenthyciad, bydd aelod o'n tîm yn cysylltu â chi ac yn anfon doler i'n ffurflen gais atoch, ynghyd â chod unigryw. Drwy fewnbynnu'r cod unigryw hwn i'r porth ymgeisio, fe welwch fod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb wedi'i hychwanegu at eich cais llawn yn awtomatig. Mae hyn er mwyn arbed amser i chi. Sylwch eich bod yn gallu golygu'r holl atebion sydd wedi'u cwblhau ymlaen llaw rhag ofn bod rhywbeth wedi newid yn eich prosiect.

Nid oes angen i chi gwblhau'r cais llawn ar yr un pryd: dilynwch y cyfarwyddiadau ar ddechrau'r ffurflen ar-lein i gadw eich gwaith wrth i chi fynd yn eich blaen, ac yna i ail-ddechrau cais sydd wedi'i gwblhau'n rhannol yn ddiweddarach.

Efallai y byddwch am ddefnyddio fersiwn dogfen Word o'r ffurflen gais i lunio'ch atebion ymlaen llaw ac yna eu copïo a'u gludo i'r ffurflen ar-lein. Mae hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i chi weithio gydag eraill a chael adborth gan eich sefydliad cyn cyflwyno'ch cais.

Mae gan rai cwestiynau gyfrif geiriau cyfyngedig er mwyn annog ymgeiswyr i roi atebion cryno; dylech ysgrifennu cymaint ag sy'n angenrheidiol hyd at yr uchafswm hwn. Mae'n bwysig cadw at y rhain gan na fydd unrhyw destun sy'n fwy na'r cyfrif geiriau yn ymddangos yn eich cais a gyflwynwyd. Os ydych yn paratoi'ch atebion all-lein yn gyntaf, nodwch y gall y cyfrif geiriau gael ei gyfrifo ychydig yn wahanol ar y ffurflen ar-lein, felly fe'ch cynghorir i roi'r gorau i ysgrifennu pan fydd y cyfrif geiriau ychydig yn llai na'r uchafswm geiriau ar gyfer pob cwestiwn.

Beth i'w ddweud wrthym – Y cais

Yn y ffurflen hon, gofynnir i chi ddweud wrthym am eich sefydliad a'ch adeilad. Byddwn hefyd yn gofyn pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer addasu ac aildefnyddio'r adeilad, neu ba syniadau rydych yn eu hystyried. Byddwn yn gofyn ble mae'r adeilad wedi'i leoli a'r gwaith neu'r costau rydych am i ni eu hariannu.

Mae'r rhifau isod yn cyfeirio at rif y cwestiwn ar y ffurflen gais. Lle nad yw cwestiwn wedi'i gynnwys isod, mae hynny oherwydd y dylai'r ateb fod yn hunaneglur. Nodir y terfynau geiriau, lle bo hynny'n berthnasol, mewn cromfachau sgwâr – [].

Lle rydym eisoes wedi gofyn yr un cwestiwn â hwn ar y cam Mynegiant o Ddiddordeb, mae'n bosibl y bydd yr atebion o'ch ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb wedi cael eu cwblhau yn y cais ymlaen llaw. Mae'r atebion hyn bob amser yn gallu cael eu golygu fel y gallwch ddweud wrthym am y sefyllfa a'r datblygiadau diweddaraf gyda'ch prosiect yn eich cais.

Grantiau Gwaith Cyfalaf a Benthyciadau

Pan welwch hwn yn y nodiadau, mae canllawiau ychwanegol ar yr hyn yr ydym am ei ddeall am y cynigion prosiect hyn. Mae'n bwysig dweud wrthym am yr agweddau hyn ar eich cynlluniau. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn gofyn am elfennau ychwanegol o wybodaeth.

Adran 1: Ynglŷn â'ch sefydliad

1.3 Pa fath o sefydliad ydych chi?

Cyfeiriwch at Gwestiwn 3 yn yr adran Mynegiant o Ddiddordeb, uchod.

1.7 Cysylltiadau

Rydym yn gofyn am fanylion cyswllt ar gyfer dau unigolyn sy'n gysylltiedig â'ch sefydliad, a dylent ill dau fod yn ymwneud yn barhaus â'r prosiect, bod wedi'u hawdurdodi i siarad ar ran eich sefydliad, ac yn gallu ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth os oes angen. Os yw un o'r cysylltiadau yn aelod o staff, dylai'r llall fod yn aelod o'ch Bwrdd, yn Gyfarwyddwr neu'n aelod o'ch pwyllgor rheoli. Yn gyffredinol, byddwn yn cysylltu â'r unigolyn cyntaf y byddwch yn darparu ei fanylion ar ei gyfer. Bydd y ddau gyswllt yn cael copi o'r cais wedi'i gwblhau. Rydym yn gofyn am fanylion dau unigolyn fel bod gennym rywun wrth gefn rhag ofn na fyddwn yn gallu cysylltu â'r unigolyn cyntaf a enwir.

Mae'n ein helpu ni: I gadw mewn cysylltiad â'ch sefydliad ar ôl i chi gyflwyno'ch cais.

1.10 Pa gymorth ydych yn chwilio amdano?

Gallwch dicio mwy nag un blwch os dymunwch gael eich ystyried ar gyfer grant a benthyciad. Os byddwch yn ticio 'Grant' a Benthyciad' ill dau, byddwn yn gofyn i aelod o'r ddau dîm hwnnw ystyried eich cais. Sylwch, fodd bynnag, na chewch wneud cais am fwy nag un grant ar unrhyw adeg.

Wrth ddewis pa flwch i'w dicio, cyfeiriwch at y Canllawiau Rhaglen perthnasol, gan fod rhai o'n rhaglenni ariannu yn caniatáu gwaith cyfalaf, lle nad yw eraill yn gwneud hynny.

Mae'n ein helpu ni: I sicrhau ein bod yn asesu eich cais am y gronfa neu'r rhaglen gymorth gywir.

1.11 Pa fath o grant ydych yn chwilio amdano?

Bydd y cwestiwn hwn yn ymddangos os ydych yn ticio 'Grant' yng Nghwestiwn 1.10. Cyfeiriwch at y Canllawiau Rhaglen perthnasol neu siaradwch ag aelod o'n staff i wneud yn siŵr eich bod yn dewis y grant cywir ar gyfer y gweithgaredd yr ydych am ei wneud.

Mae'n ein helpu ni: I sicrhau ein bod yn asesu eich cais am y cymorth cywir.

1.12 Ble mae eich prosiect wedi'i leoli?

Dywedwch wrthym ble mae'r adeilad yr ydych yn gwneud cais mewn perthynas ag ef wedi'i leoli. Sylwch mai dim ond prosiectau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y gallwn eu cefnogi. Gall gwahanol raglenni grant a gwahanol raglenni benthyciad fodoli hefyd mewn gwahanol wledydd a rhanbarthau. Fe'ch cynghorir i ddarllen y Canllawiau Rhaglen perthnasol ochr yn ochr â'r nodiadau hyn er mwyn sicrhau eich bod yn gwneud cais i'r rhaglen gywir.

1.14 A oes gan eich sefydliad bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant?

Mae'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol wedi ymrwmo i gefnogi grwpiau ar draws y DU i gymryd perchnogaeth a chynnal asedau hanesyddol, ac i hyrwyddo mynediad at dreftadaeth i bawb. Gallwch ddarllen mwy am ein hymrwymadau yma: [Ein hymrwymadau i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol \(ahfund.org.uk\)](#).

Er nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgeiswyr eisoes wedi datblygu polisi yn y maes hwn cyn gwneud cais, rydym yn annog yn gryf bob un o'r prosiectau a ariennir gennym i ddatblygu polisi o'r fath o fewn oes eich grant neu fenthyciad.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall ymrwymiad eich sefydliad i hyrwyddo mynediad teg a chynhwysol at yr adeilad yr ydych yn bwriadu ei addasu a'i aildefnyddio.

Eich sefydliad a'ch cynrychiolaeth

Mae'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol wedi ymrwmo i gefnogi grwpiau ar draws y DU i gymryd perchnogaeth asedau hanesyddol a'u cynnal, ac i hyrwyddo mynediad at dreftadaeth i bawb. Gallwch ddarllen mwy am ein hymrwymadau yma: [Ein hymrwymadau i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol \(ahfund.org.uk\)](#).

Er mwyn dadansoddi p'un a yw ein cymorth yn cyrraedd rhan amrywiol o gymdeithas y DU ac i helpu i nodi rhwystrau a allai fod yn atal ein cyllid rhag cyrraedd grŵp sydd mor eang â phosibl, gofynnwn i bob ymgeisydd ddweud wrthym am eu staff a'u Bwrdd. Os nad ydych yn gwybod yr wybodaeth hon eto, nodwch 'Ddim yn Gwybod' ond noder y gallwn ofyn i chi wneud arolwg o'ch sefydliad ar ôl i ddyfarniad gael ei wneud.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall p'un a yw ein cyllid yn cyrraedd rhan amrywiol o gymdeithas y DU a helpu i nodi rhwystrau a allai fod yn atal ein cyllid rhag cyrraedd grŵp sydd mor eang â phosibl.

1.15 Disgrifiwch yn gryno ddiben eich sefydliad a'ch prif weithgareddau. [150 o eiriau]

Dywedwch wrthym am y canlynol: Y nodau allweddol a nodir yn eich dogfen lywodraethol a'r hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i gyflawni'r rhain, ynghyd ag enghreifftiau o gyflawniadau yn y gorffennol. Os ydych yn sefydliad newydd, eglurwch yr hyn rydych wedi'i wneud hyd yma i sefydlu ac adeiladu'ch sefydliad.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall eich hanes, eich potensial a'r hyn yr ydych yn bwriadu ei gyflawni fel sefydliad. Mewn rhai achosion, gall eich sefydliad fod yn gynnar yn ei ddatblygiad; os yw hynny'n wir, byddwn am weld bod gennych genhadaeth glir ar

gyfer eich sefydliad a bod y prosiect hwn yn cyd-fynd â'ch nodau neu'n eich helpu i'w cyflawni. Rydym hefyd eisiau gwybod p'un a oes cymorth a chyngor y gallwn eu cynnig i helpu'ch sefydliad i ddatblygu.

Adran 2: Ynglŷn â'ch adeilad

2.2 Beth oedd yr adeilad yn wreiddiol a beth yw ei hanes? Os oes gan yr adeilad unrhyw arwyddocâd arbennig i'ch cymuned, disgrifiwch hynny yma. [250 o eiriau]

Nid yw'r adran hon wedi cael ei chwblhau ymlaen llaw o'ch ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb oherwydd rydym am i chi ddweud wrthym yn fanylach am yr adeilad, ei hanes a'r hyn mae'n ei olygu i'ch cymuned heddiw.

Dywedwch wrthym am y canlynol: Dyluniad, cynllun ac adeiladwaith yr adeilad, ei oedran a'i arwyddocâd treftadaeth. Os nad yw'r adeilad yn rhestredig, disgrifiwch yr hyn sy'n ei wneud yn arwyddocaol o ran treftadaeth. Esboniwch sut mae'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio ar wahanol adegau a sut mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Sut mae'n cael ei werthfawrogi gan y gymuned?

Mae'n ein helpu ni: I ddeall beth oedd yr adeilad a'i amgylchiadau presennol, gan gofio efallai na fyddwn wedi ymweld ag ef. Mae hefyd yn ein helpu i ddeall arwyddocâd arbennig yr adeilad i'ch cymuned.

2.8 Os nad ydych eisoes yn berchen ar yr adeilad neu'n dal prydles hir arno, pwysy'n berchen arno ar hyn o bryd? Sut ydych yn disgwyl cymryd perchnogaeth o'r adeilad – drwy brynu, trosglwyddo ased neu fel arall?

Os nad ydych eisoes yn berchen ar eich adeilad, neu os oes gennych les hirdymor, atgyweirio llawn, cwbl drwyddedadwy llawn (o leiaf 25 mlynedd) ar eich adeilad, rhaid i ni weld llwybr rhesymol i'ch sefydliad wneud hynny.

Dywedwch wrthym am y canlynol: Eich rhagolygon ar gyfer caffael yr adeilad a'r mynediad ffisegol iddo. Amlinellwch eich llwybr disgwyl i berchnogaeth, a'r pwynt rydych wedi'i gyrraedd, e.e.:

- A yw'r perchennog yn barod i werthu'r adeilad i chi neu ei drosglwyddo i chi fel arall? Pa gam mae eich trafodaethau wedi'i gyrraedd? A allwch gael mynediad i'r adeilad at ddibenion cynnal arolwg ohono?
- A yw'r awdurdod lleol yn barod i ddefnyddio camau gorfodi os oes angen er mwyn sicrhau perchnogaeth a throsglwyddo'r adeilad i chi, neu a ydynt wedi eich derbyn fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer trosglwyddo'r ased?
- Os ydych yn defnyddio'r broses Hawl Cymuned i Wneud Cynnig, eglurwch ar ba gam rydych chi. Os ydych wedi galw eich hawl i wneud cynnig, beth yw dyddiad gorffen y moratoriwm ar werthu ar y farchnad agored?

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r uchod oddi wrth y perchennog neu gorff perthnasol arall, gan lanlwytho'r ddogfen hon yn Adran 5. Byddwn yn edrych am fwy o sicrwydd ynghylch y posibilrwydd o gymryd perchnogaeth o'r adeilad, gan ddibynnu ar ba grant neu fenthyciad rydych yn gwneud cais amdano, er enghraifft:

- Grantiau Hyfywedd Prosiect: llythyr oddi wrth y perchnogion yn cadarnhau eu parodrwydd mewn egwyddor i werthu neu brydlesu ac i ganiatáu mynediad.

- Grantiau Datblygu Prosiect / Benthyciadau ar gyfer caffael: drafft o benawdau'r telerau ar gyfer cytundeb gwerthu neu brydlesu.
- **Grantiau Gwaith Cyfalaf a Benthyciadau:** erbyn y cam hwn, byddem fel arfer yn disgwyl i chi fod â pherchnogaeth neu les hir. Os ydych yn gobeithio gwneud cais am Grant neu Fenthyciad ar gyfer Gwaith Cyfalaf ac nad oes gennych berchnogaeth neu les hir eto, cysylltwch â'n tîm i gael cyngor.

Mae'n ein helpu ni: I gadarnhau bod gan eich sefydliad siawns realistig o allu caffael yr adeilad ac y bydd gennych fynediad digonol i allu cyflawni'r gweithgareddau a'r gwaith yr ydych yn gwneud cais i ni i'w cefnogi.

Adran 3: Ynglŷn â'r prosiect

3.2 Sut ydych yn bwriadu defnyddio'r adeilad? Pa waith addasu yr ydych yn disgwyl y bydd angen ei wneud, neu yr ydych yn ei ystyried? [250 o eiriau]

Dywedwch wrthym am y canlynol: Eich syniadau ar gyfer defnyddio'r adeilad. Yn y cam Hyfywedd Prosiect, mae'r rhain yn debygol o fod yn bosibiliadau rydych am eu profi drwy'r gwaith a ariennir gan grant. Yn ystod camau diweddarach eich cais am grant neu fenthyciad diweddarach, byddwch eisoes wedi nodi'r opsiwn a ffefrir gennych. Crynhowch pa waith y disgwylir y bydd angen ei wneud ar yr adeilad – yn waith atgyweirio ac yn waith addasu – er mwyn ei gwneud yn bosibl defnyddio'r adeilad yn y ffordd rydych yn' cynllunio.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall p'un a oes gan eich prosiect y potensial i adfywio adeilad hanesyddol mewn ffordd sy'n cadw ei werth treftadaeth, wrth gyflwyno defnyddiau newydd hyfyw.

3.4 Sut y bydd y prosiect o fudd i'ch cymuned? Pwy yw'r buddiolwyr? [200 o eiriau]

Dywedwch wrthym am y canlynol: Pwy fydd yn defnyddio'ch prosiect, gan ddisgrifio pa rannau o'r gymuned fydd yn elwa arno, nodi'r rhai y mae anfantais yn effeithio arnynt yn enwedig, a chyfeirio at y Mynegeion Amddifadedd Lluosog lle bo hynny'n berthnasol. Esboniwch pa ymchwil rydych wedi'i wneud i nodi'r galw gan y defnyddwyr hyn a sut y bydd yn diwallu eu hanghenion. Gallai hyn gynnwys mynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, neu ymateb i newidiadau yn yr ardal leol. Esboniwch y swyddi, yr hyfforddiant a/neu'r cyfleoedd gwirfoddoli a fydd yn cael eu creu. Esboniwch ffyrdd eraill y bydd pobl yn elwa, fel llesiant gwell, wedi'u hategu gan dystiolaeth bod angen hyn. Os ydych yn gwneud cais am Grant Hyfywedd Prosiect ac nad ydych yn gwybod eto pa fanteision penodol a ddaw yn sgil y prosiect, rhowch wybod i ni am y buddiolwyr arfaethedig. Ar gyfer grantiau a benthyciadau ar gyfer camau diweddarach, rydym yn disgwyl i chi nodi'n glir pwy fydd yn elwa ar y prosiect hwn ac ym mha ffordd.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall effaith gymdeithasol bosibl eich cynlluniau, a'r tebygolrwydd y byddant yn gynaliadwy dros yr hirdymor, drwy ddiwallu'r angen a galw sydd wedi'u nodi'n glir.

3.5 Beth yw sefyllfa eich prosiect ar hyn o bryd o ran ein Cylch Bywyd Ailddefnyddio?

Ni waeth p'un a ydych yn gwneud cais am grant neu fenthyciad, gofynnwn i chi

edrych ar ein Cylch Bywyd Aildefnyddio, sy'n disgrifio camau prosiect aildefnyddio adeilad hanesyddol nodweddiadol, a dweud wrthym pa gam rydych yn meddwl y mae eich prosiect wedi'i gyrraedd: [ahf_strategy_document_pdf_06_1.pdf \(ahfund.org.uk\)](#). Y camau allweddol yw fel a ganlyn:

- Hyfywedd – efallai mai syniad yn unig yw eich prosiect, neu efallai bod gennych syniad o'r hyn rydych am ei wneud ond nad ydych wedi dangos eto bod y prosiect yn debygol o fod yn hyfyw. Yn y cam hwn, mae'r gwaith y gallech fod yn gwneud cais am gymorth ar ei gyfer yn cynnwys prisio eiddo, cynnal arolygon o gyflwr, a gwerthuso opsiynau gan ystyried amodau'r farchnad leol, cynllunio pensaernïol cychwynnol, costau prosiect tebygol, a chynlluniau busnes amlinellol. Ar ddiwedd y cam hwn, byddwch yn gwybod p'un a yw eich prosiect yn hyfyw neu beidio yn ei hanfod.
- Datblygu – rydych wedi nodi opsiwn a ffefrir ac wedi dangos ei fod yn debygol o fod yn briodol i'ch adeilad ac yn hyfyw os gallwch gaffael a/neu gyflawni'r gwaith cyfalaf. Yn y cam hwn, mae'r gwaith y gallech fod yn ystyried gwneud cais am gymorth ar ei gyfer yn cynnwys lluniadau pensaernïol a chaniatadau cysylltiedig, cynllunio busnes, codi arian ar gyfer costau cyfalaf, benthyciad ar gyfer caffael, a chostau rheoli prosiect. Efallai y byddwch hefyd yn profi defnydd o'ch adeilad yn y cyfamser. Ar ddiwedd y cam hwn, byddwch yn barod i ddechrau'r cam Ailddatblygu Cyfalaf.
- Ailddatblygu Cyfalaf – mae gennych gynlluniau a chaniatâd ar waith ar gyfer yr holl addasiadau pensaernïol yr ydych yn eu cynllunio, cynllun busnes cadarn sy'n dangos llwybr tuag at weithredu'ch adeilad dros yr hirdymor yn gynaliadwy, a chyllid sylweddol yn ei le ar gyfer gwaith cyfalaf neu'n gwneud cais amdano. Rydych yn gwneud cais am gyllid i dalu am gostau'r gwaith atgyweirio ac addasu i'w gwneud yn bosibl aildefnyddio'r adeilad ac, ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, bydd yr adeilad yn weithredol.
- Gweithredol – mae eich adeilad eisoes wedi cael ei addasu ac rydych yn ei ddefnyddio'n weithredol, ond efallai eich bod yn gwneud cais i gefnogi'r broses o ddatblygu cynlluniau i addasu gofodau ychwanegol ynddo neu'n ailfeddwl rhyw agwedd ar eich gweithrediad neu eich cynllun busnes. Mae'n bosibl eich bod hefyd yn chwilio am gymorth gyda gwaith cynnal a chadw arferol, ond darllenwch y Canllawiau Rhaglen perthnasol gan nad yw'r gweithgaredd hwn yn debygol o gael ei gefnogi gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall ble mae eich prosiect yn ffitio o fewn ein Cylch Bywyd Aildefnyddio a pha gyllid gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol sydd fwyaf priodol ar gyfer eich cynlluniau ar gyfer yr adeilad.

3.6 Pam ydych yn disgwyl y bydd eich cynllun i aildefnyddio'r adeilad yn gynaliadwy? [150 o eiriau]

Dywedwch wrthym am y canlynol: Unrhyw ymchwil ragarweiniol yr ydych wedi'i gwneud neu adroddiadau yr ydych wedi'u llunio sy'n dangos bod galw am y gwasanaeth neu'r gweithgaredd yr ydych yn ei gynllunio, ac sy'n dangos llif incwm a all gefnogi eich gweithgareddau a chadwraeth eich adeilad dros yr hirdymor. Os ydych wedi cwblhau Arfarniad o Hyfywedd Prosiect, gallwch lanlwytho hwn yn Adran 5.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall pa waith rydych eisoes wedi'i wneud i bennu y bydd eich aildefnydd arfaethedig yn ymateb i angen lleol sefydledig ac y bydd eich prosiect yn gynaliadwy'n ariannol dros yr hirdymor.

3.7 Dywedwch wrthym sut yr ydych yn gwneud y mwyaf o gynaliadwyedd

amgylcheddol eich prosiect. [150 o eiriau]

Dywedwch wrthym am y canlynol: Unrhyw fesurau creu ynni a mesurau effeithlonrwydd yr ydych yn eu defnyddio neu'n eu hystyried yn eich prosiect (e.e. pypmiau gwres, inswleiddio); cynlluniau gwastraff a chaffael; ffyrdd yr ydych yn cefnogi ymwybyddiaeth o'r fioamrywiaeth leol neu gynaliadwyedd drwy eich prosiect; a gwaith hyrwyddo teithio cynaliadwy. Nodwch sut yr ydych yn cydbwysu mesurau cynaliadwyedd â gofynion cadwraeth sy'n briodol i'r adeilad. Os oes gennych bolisi'r amgylchedd, gallwch ei lanlwytho fel dogfen ategol.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall pa gamau rydych eisoes wedi'u cymryd i sicrhau'r budd amgylcheddol mwyaf o aildefnyddio adeilad hanesyddol, ac i ba raddau yr ydych yn cydbwysu cynaliadwyedd ag anghenion cadwraeth yr adeilad.

3.8 Beth, ar hyn o bryd, yw cyfanswm y costau ailddatblygu cyfalaf disgwyliedig ar gyfer eich prosiect (gan gynnwys prynu os yn berthnasol)?

Yma rydym am i chi roi amcangyfrif o faint o arian rydych yn meddwl y bydd ei angen, yn gyffredinol, i gyflawni'r gwaith addasu ar gyfer eich prosiect cyfan (heb gynnwys costau datblygu'r prosiect).

Grantiau Gwaith Cyfalaf a Benthyciadau

Os ydych yn gwneud cais am un cam o Grant Gwaith Cyfalaf, dylai'r cyfanswm hwn fod yn seiliedig ar dendrau rydych wedi'u cael neu, o leiaf, amcangyfrifon o'r costau a ddarperir gan eich syrfëwr meintiau. Os ydych yn dilyn dull gyda nifer o gamau i ddod â'r adeilad(au) yn ôl i ddefnydd, nodwch y cyfanswm ar gyfer y cam sy'n ganolbwynt i'r cais hwn.

3.9 Ar hyn o bryd, faint o bobl ydych yn disgwyl fydd wedi dysgu sgiliau newydd o ran ymgysylltu â'r gymuned, cynllunio busnes, rheoli prosiectau a/neu godi arian drwy'r gweithgaredd rydych yn gofyn i ni ei gefnogi?

Amcangyfrifwch faint o bobl fydd wedi ennill sgiliau newydd drwy'r gwaith yr ydych yn gofyn i ni ei gefnogi.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall sut y bydd y gwaith yr ydych yn gofyn i ni ei gefnogi yn helpu i feithrin gallu yn eich cymuned.

3.10-15 Ar y cam hwn yn eich prosiect, beth ydych yn disgwyl i'r prosiect gorffenedig ei gyflawni?

Nid ydym yn disgwyl ichi allu bod yn fanwl gywir ar yr union faint o arwynebedd llawr neu swyddi sydd i'w creu; rydym am gael amcangyfrif o'ch syniadau presennol am yr hyn y gallai eich prosiect ei gyflawni, yn ogystal â'ch amcan gorau ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddwn yn gofyn hyn i chi eto pan fydd y prosiect yn cael ei ddatblygu ymhellach.

- **Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëir** – dywedwch wrthym faint o swyddi newydd yr ydych yn amcangyfrif fydd wedi'u creu ar gyfer gweithredu'r adeilad;
- **Nifer y bobl y cynigir cyfleoedd hyfforddi iddynt bob blwyddyn** – dywedwch wrthym faint o wirfoddolwyr yr ydych yn amcangyfrif y bydd y prosiect gweithredol yn gweithio gyda nhw bob blwyddyn;
- **Nifer yr oriau blynyddol o gyfleoedd gwirfoddoli** – dywedwch wrthym sawl awr y flwyddyn o waith gwirfoddol y bydd y prosiect yn eu cynnal pan fydd yn weithredol;
- **Nifer yr elusennau / mentrau cymdeithasol / busnesau fydd yn meddiannu'r**

adeilad pan fydd wedi'i warchod – dywedwch wrthym sawl sefydliad fydd yn defnyddio'r gofod yn rheolaidd (h.y. yn ddyddiol neu'n wythnosol; a

- **Cyfanswm yr arwynebedd llawr yr adeilad gorffenedig mewn METRAU SGWÂR** – gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio metrau sgwâr, ac nid troedfeddi sgwâr.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall effeithiau cymdeithasol ac economaidd posibl eich prosiect; sy'n ei gwneud yn bosibl i ni gasglu ystadegau i adrodd i'n cyllidwyr ein hunain.

Adran 4: Cais am gyllid a gwybodaeth ariannol

4.1 Beth ydych yn gofyn i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol ei gefnogi, a sut mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â'ch cynllun prosiect? [250 o eiriau]

Dywedwch wrthym am y canlynol: Y gwaith penodol rydych yn bwriadu ei wneud gyda chymorth ein grant neu fenthyciad. Cyfeiriwch at y Canllaw Rhaglen perthnasol i weld pa gostau y gallwn eu hystyried. Disgrifiwch y prif eitemau, gan gyfeirio at ba fathau o weithwyr proffesiynol fydd yn ymgymryd â nhw a beth fyddant yn ei gynhyrchu. Nodwch hefyd y gallwn gyfrannu at gostau staff a gorbenion rhesymol ar gyfer sefydliadau'r sector gwirfoddol, wedi'u cyfrifo ar sail adennill costau llawn (bydd angen i chi ddangos sut mae unrhyw waith dyrannu gorbenion wedi'i gyfrifo – gweler gwefan y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol i gael canllawiau).

Mae'n ein helpu ni: I ddeall beth yw eich cais am gyllid ac ystyried p'un a yw'r gweithgareddau hyn yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen yr ydych yn bwriadu gwneud cais iddi, yn ogystal â ph'un a yw'n cynrychioli gwerth da am arian. Byddwn hefyd yn ystyried p'un a yw'ch amserlen yn realistig.

Grantiau Gwaith Cyfalaf a Benthyciadau

Rhowch ddisgrifiad byr, gan esbonio'r gwaith allweddol dan sylw. Esboniwch pa gam rydych wedi'i gyrraedd o ran cynllunio'r gwaith hwn, e.e. dyluniadau a manyleb wedi'u paratoi yn fanwl iawn. Esboniwch sut rydych wedi cyfrifo ffigurau'r costau, e.e. cynllun o'r costau wedi'i baratoi gan eich syrfêwr meintiau neu o dendrau gan contractwyr. Gofynnir i chi ddarparu rhagor o fanylion yn y dogfennau ategol i ddangos bod achos argyhoeddiadol i brofi y bydd yr adeilad yn cael ei adfer a'i ddefnyddio. Gall hyn gynnwys adeiladau sy'n cael eu "defnyddio yn y cyfamser", ar yr amod bod y gwaith i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel ac yn gallu gwrthsefyll gwynt a thywydd wedi cael ei gwblhau.

4.2 A oes un neu ragor o gostau penodol yr ydych yn gofyn i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol eu hariannu? Cwblhewch brif gyllideb. Os ydych yn gofyn am gyfraniad canrannol tuag at eich prosiect, nodwch hynny isod.

Yn y tabl hwn, nodwch y prif eitemau gwaith fel y disgrifir uchod. Fel rheol, mae cais yn debygol o gynnwys ystod o wasanaethau proffesiynol – dangoswch bob prif fath o wasanaeth ar wahân. Nodwch nifer y diwrnodau a'r gyfradd y dydd ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol. Os nad ydych wedi cael dyfynbrisiau cyn gwneud cais, gellir amcangyfrif y rhain, ond cofiwch fod grantiau'n cael eu talu ar ôl cyflwyno tystiolaeth o anfonebau, felly mae costau cywir yn ddefnyddiol. Os dyfernir grant, bydd angen cael tendrau cystadleuol pan fydd ffioedd gweithiwr proffesiynol neu gost eitem yn fwy na £10,000. Fodd bynnag, argymhellir ceisio dyfynbrisiau cystadleuol o dan y trothwy hwn fel eich bod yn gallu gwirio gwerth am arian. Os ydych yn cynnwys unrhyw orbenion ar sail adennill costau llawn, dylech gynnwys cyfanswm y ffigur a disgrifiad byr o'r hyn sy'n cael ei gwmpasu. Bydd hefyd angen darparu cyfrifiad

manylach mewn dogfen ategol.

Nodwch ganran pob cost yr ydych yn gofyn i ni ei hariannu. Os ydych yn gofyn i ni dalu am gyfran o gyfanswm y costau, cofiwch gynnwys yr holl gostau perthnasol yma.

Grantiau Gwaith Cyfalaf a Benthyciadau

Os ydych yn gwneud cais am arian cyfalaf, defnyddiwch y tabl i nodi prif elfennau'r rhaglen adeiladu a'u cost. Dylid darparu cynllun cost a baratowyd gan eich syrfëwr meintiau, neu dendrau gan gontractwyr adeiladu fel dogfennau ategol yn Adran 5, os ydynt ar gael.

4.3 Pwy sydd eisoes yn rhan o dîm eich prosiect, pa rolau y byddant yn eu cyflawni a pha sgiliau sydd ganddynt? Pa gyngor ydych wedi'i gymryd a beth sydd ei angen o hyd? [500 o eiriau]

Dywedwch wrthym am y canlynol: Eich tîm – y staff, y Bwrdd, ac aelodau eraill o'r tîm fel y bo'n berthnasol, yn ogystal ag unrhyw ymgynghorwyr yr ydych eisoes wedi'u cymryd ymlaen ar eich prosiect. Nid oes angen CVs llawn arnom, ond bydd yn ddefnyddiol cael disgrifiad un-llinell o bob aelod allweddol o'ch tîm a pha brofiad neu sgil penodol y maent yn ei gyfrannu i'r prosiect. Os ydych eisoes wedi nodi bylchau mewn sgiliau neu wybodaeth, dywedwch wrthym beth yw eich cynllun ar gyfer llenwi'r bylchau hynny.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall p'un a yw eich tîm yn ddigonol ar hyn o bryd i gyflawni eich prosiect, neu – os nad oes gan eich tîm presennol sgiliau a phrofiad allweddol – p'un a ydych yn ymwybodol o'r diffyg a ph'un a oes gennych gynllun ar waith i fynd i'r afael ag ef.

Grantiau Gwaith Cyfalaf a Benthyciadau

Byddwn eisieu gweld bod gan y sefydliad y gallu i gyflawni prosiect cyfalaf o'r math a gynigir.

4.4 Beth yw'r amserlen gynlluniedig ar gyfer y gwaith a pham mae angen ei wneud nawr?

Dywedwch wrthym am y canlynol: Faint o frys sydd i'r gwaith hwn. Soniwch am unrhyw ffactorau penodol sy'n effeithio ar hyn, megis dyddiadau cau y mae'n rhaid i chi eu bodloni, argaeledd ffynonellau cyllid eraill sydd â therfyn amser, unrhyw fygythiadau penodol sy'n ymwneud â chyflwr yr adeilad, amgylchiadau sy'n ymwneud â meddiant / caffael.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall p'un a yw eich amserlen arfaethedig yn realistig a blaenoriaethu ceisiadau am gyllid dros amser.

4.5 Pa gyllid arall ydych wedi'i sicrhau neu wedi gwneud cais amdano tuag at y gwaith presennol? Os nad ydych wedi codi'r arian ychwanegol sydd ei angen eto, sut ydych yn bwriadu gwneud hynny?

Dywedwch wrthym am y canlynol: Grantiau a benthyciadau nad ydynt yn ymwneud â'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, arian arall a godir neu sydd i'w godi, a/neu'ch arian eich hun yr ydych yn disgwyl gallu ei roi tuag at y costau sydd wedi'u cynnwys yn eich cais. Peidiwch â chynnwys gwerth amser gwirfoddol na gwaith pro bono.

4.6 Faint o arian ydych yn gofyn amdano gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol?

Dywedwch wrthym yma faint o arian rydych yn gofyn amdano gennym. Fel rheol,

dylai'r swm hwn fod yn gyfanswm costau eich gweithgaredd arfaethedig, heb unrhyw arian cyfatebol a ddangosir yn 4.5.

Mae cwestiynau 4.9-4.14 yn ymwneud â cheisiadau am fenthyciad yn unig.

4.9 Beth ydych yn disgwyl fydd gwerth yr adeilad ar ôl i'r gwaith cyfalaf gael ei gwblhau?

Rhowch amcangyfrif o'r gwerth neu ticiwch 'Ddim yn gwybod'.

Dywedwch wrthym am y canlynol: Beth yw gwerth presennol yr adeilad yr ydych am ei gaffael, ei atgyweirio neu ei addasu ac amcangyfrif o werth yr adeilad pan fydd y gwaith arfaethedig wedi cael ei gwblhau.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall y gwahaniaeth y bydd y prosiect yn ei wneud a chytuno ar delerau unrhyw gyllid benthyciad y gallwn ei gynnig i chi.

4.10 Am ba mor hir ydych am fenthyciad yr arian?

Dywedwch wrthym am y canlynol: Am ba mor hir ydych yn disgwyl y bydd angen benthyciad yr arian o dan y benthyciad. Fel rheol, mae telerau ein benthyciad yn para rhwng tair a phum mlynedd. Mae'n bosibl y byddwn yn gallu ystyried benthyciad dros tymor hwy pan fo cyllid yn caniatáu ac ar sail fesul achos.

Mae'n ein helpu ni: I ddeall fforddiadwyedd y benthyciad a chytuno ar delerau unrhyw gyllid benthyciad y gallwn ei gynnig i chi.

4.12 Efallai y bydd y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn gallu cynnig cymorth meithrin gallu drwy ein Rhaglen RePlan. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan yn y rhaglen hon, nodwch y math o gymorth y gallai fod ei angen arnoch.

RePlan yw ein rhaglen gymorth meithrin gallu a ariennir drwy'r Gronfa Effaith ar Dreftadaeth. Gallwn gynnig cymorth arbenigol ychwanegol i dderbynwyr benthyciadau ynghyd â chynghor a mentora mewn newid cynaliadwy mewn busnes ac effaith gymdeithasol ac economaidd hirdymor. Ticiwch 'Oes' os oes gennych ddi-ddordeb mewn cael eich cefnogi drwy'r rhaglen hon.

4.14 Os ydych wedi ateb 'Oes', nodwch ffurf a gwerth y warant.

Rhowch fanylion unrhyw sicrwydd y gallwch ei gynnig yn erbyn y benthyciad. Mae diogelwch yn ei gwneud yn bosibl i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol ddiogelu ein buddsoddiad benthyciad ac yn effeithio ar delerau'r benthyciadau y gallwn eu cynnig. Gallai hyn fod yn daliad yn erbyn yr adeilad yr ydych yn bwriadu ei gaffael neu adeilad arall sydd eisoes o dan berchnogaeth eich sefydliad.

Adran 5: Rhestr wirio o ddogfennau a ffotograffau ategol

Lanlwythwch y dogfennau ategol. Os na allwch lanlwytho'r dogfennau ategol ar-lein, byddwn yn derbyn copiâu electronig drwy e-bost neu drwy safle rhannu ffeiliau. Os gwnaethoch gyflwyno unrhyw ddogfennau gyda chais blaenorol ac na wnaed unrhyw newidiadau ers hynny, nid oes angen i chi eu hailanfod, ond cyfeiriwch at eich cais blaenorol. Rydym yn cydnabod na fydd yr holl ddogfennau sydd eu hangen arnom yn barod ar adeg cyflwyno cais. Fodd bynnag, os ydym yn gwneud dyfarniad, bydd angen i ni weld y dogfennau hyn a'u cymeradwyo cyn i'ch gwaith a ariennir ddechrau.

Hanfodol i bob ymgeisydd:

1. Dogfen lywodraethol eich sefydliad (os na chafodd ei darparu o'r blaen).
2. Rhestr o ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr cyfredol, a disgrifiad byr iawn o'u rolau a'u profiad perthnasol.
3. Copi o gofnodion cyfarfod gydag ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr eich sefydliad, yn cofnodi'n ffurfiol y penderfyniad i fynd â'r prosiect yn ei flaen ac i wneud cais am grant gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.
4. Cyfrifon a archwiliwyd a mantolen ddiweddaraf eich sefydliad, cyfrifon rheoli diweddar (os ydynt ar gael) neu ddatganiad ariannol ardstyiedig cyfredol.
5. O leiaf chwe delwedd ddirgryddol o ansawdd uchel o du mewn a thu allan yr adeilad ac o unrhyw ddirgryddiadau a gweithgareddau cymunedol cysylltiedig.
6. Prawf o berchnogaeth eich sefydliad ar yr adeilad (e.e. copi o'r weithred eiddo o'r Gofrestrfa Tir) neu dystiolaeth y gall eich sefydliad gaffael yr adeilad (e.e. llythyr oddi wrth y perchennog yn nodi parodrwydd mewn egwyddor i drosglwyddo perchnogaeth i'ch sefydliad).

Am ddogfennau ategol ychwanegol, cyfeiriwch at y Canllawiau Rhaglen. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen dogfennau ychwanegol.

Adran 6: Datganiad a chyflwyno

Cadarnhau a chyflwyno

Mae angen i chi dicio'r blychau i gadarnhau bod gennych ganiatâd i wneud cais a'ch bod yn deall sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynir i ni.

Pan fyddwch yn hapus, cliciwch ar y botwm Cyflwyno. Bydd copi o'ch ymatebion gorffenedig yn cael eu hanfon drwy e-bost i'r prif gyfeiriad cyswllt a'r cyfeiriad cyswllt eilaidd.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi gyflwyno fy nghais?

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais, bydd copi PDF ohono yn cael ei anfon atoch a'r cyswllt eilaidd drwy e-bost. Wedyn bydd ein tîm yn adolygu eich cyflwyniad. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth yn ystod y cam hwn.

Adolygwch y Canllawiau Rhaglen i weld pryd y bydd eich cais yn cael ei ystyried, neu gallwch siarad â'n tîm a fydd yn gallu rhoi syniad ichi o ddyddiad penderfynu tebygol.